(a) mae wardiau cymunedol presennol Dwyrain Brychdyn a Bretton a Gogledd Brychdyn a Bretton wedi eu huno i ffurfio ward gymunedol newydd Gogledd-ddwyrain Brychdyn a Bretton;

(b) mae ward gymunedol newydd Gogledd-ddwyrain Brychdyn a Bretton o fewn adran etholiadol Gogledd-ddwyrain Brychdyn; ac

(c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward newydd Gogledd-ddwyrain Brychdyn yw 5.

(3) Yn y rhan o gymuned Brychdyn a Bretton a ddangosir â llinellau rhwyllog ar Fap D—

(a) mae hyn yn cynnwys ward De Brychdyn a Bretton;

(b) mae'n ffurfio rhan o adran etholiadol De Brychdyn; ac

(c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward De Brychdyn a Bretton yw 9.

**Pen-y-ffordd a Kinnerton Uchaf – newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**6.** Mae'r rhan o gymuned Kinnerton Uchaf a ddangosir â chroeslinellau ar Fap E—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-ffordd; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pen-y-ffordd.

**Pen-y-ffordd a'r Hob – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol**

**7.** Mae'r rhan o gymuned yr Hob a ddangosir â chroeslinellau ar Fap F—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-ffordd; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pen-y-ffordd.

**Pen-y-ffordd a Choed-llai – newid i ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol**

**8.**—(1) Mae'r rhan o gymuned Coed-llai a ddangosir â chroeslinellau ar Fap G—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pen-y-ffordd; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pen-y-ffordd.

(2) Yng nghymuned Pen-y-ffordd nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 13.

**Diwygiadau Canlyniadol**

**9.**—(1) Mae Gorchymyn Sir y Fflint (Trefniadau Etholiadol) 1998(**7**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn (2) o'r Tabl yn yr Atodlen, yn lle'r eitem yn y golofn gyferbyn ag Enw Adran Etholiadol Newydd Helygain rhodder—

"The Halkyn Mountain ward of the Community of Halkyn".

(**7**) O.S. 1998/3140.

